# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 24 Medi 2018

Amser: 13.30 - 16.20

Gellir gwylio'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv/cy/5015) yn:

http://senedd.tv/cy/5015

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Mick Antoniw AC (Cadeirydd)<br>Suzy Davies AC<br>Mandy Jones AC<br>Dai Lloyd AC |
| Tystion: | Paul Davies AC<br>Stephen Boyce, Comisiwn Cynulliad<br>Enrico Carpanini, Gwasanaethau Cyfreithiol, Comisiwn Cynulliad<br>Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Tai ac Adfywio<br>Helen Kellaway, Llywodraeth Cymru<br>Emma Williams, Llywodraeth Cymru<br>Huw Charles, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc)<br>Ruth Hatton (Dirprwy Glerc) |

| | |
|---|---|
| | Alys Thomas (Ymchwilydd)<br><br>Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol)<br><br>Stephen Davies (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 Bil Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru): Sesiwn dystiolaeth

Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Rebecca Evans AC, y Gweinidog Tai ac Adfywio.

## 3 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3

### 3.1 SL(5)254 – Gorchymyn Addysg a Gwella Iechyd Cymru (Trosglwyddo Staff, Eiddo, Rhwymedigaethau) (Cymru) 2018

### 3.2 SL(5)255 – Gorchymyn y Rhestrau Ardrethu (Dyddiad Prisio) (Cymru) 2018

Trafododd y Pwyllgor yr offerynnau ac roedd yn fodlon arnynt.

## 4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 4.1 SL(5)253 – Rheoliadau Trwyddedu Petroliwm (Ffioedd) (Cymru) 2018

Trafodod y Pwyllgor yr offeryn a bydd yn adrodd i'r Cynulliad yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 4.2 SL(5)243 – Cynllun Effeithlonrwydd Ynni'r Ymrwymiad Lleihau Carbon (Dirymu ac Arbedion)

Ystyriodd y Pwyllgor yr offeryn a bydd yn adrodd i'r Cynulliad yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

### 4.3 SL(5)226 – Rheoliadau'r Ddeddf Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru) 2018 (Diddymu) 2018

Ystyriodd y Pwyllgor yr offeryn a bydd yn adrodd i'r Cynulliad yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

## 5 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3 ond sydd â goblygiadau o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE

### 5.1 SL(5)252 - Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2018

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a bydd yn cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad i dynnu sylw at y materion a nodwyd o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE.

## 6 Papurau i'w nodi

### 6.1 Llythyr gan y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol: Bil Cyllido Gofal Plant Cymru

### 6.2 Llythyr at Arweinydd y Tŷ: Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 - rheoliadau a wneir o dan Atodlen 4

Nododd y Pwyllgor y llythyrau.

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y mater a ganlyn:

Derbyniwyd y cynnig.

## 8 Trafod y Dystiolaeth: Bil Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc) (Cymru)

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd a thrafodwyd materion i'w cynnwys yn ei adroddiad drafft.

## 9 Llywodraethiant yn y DU ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd: Cytundeb Rhyng-Sefydliadol Drafft

Trafododd y Pwyllgor y cytundeb drafft a chytunodd arno.

## 10 Trefniadau pontio amaethyddol yn yr Alban

Nododd y Pwyllgor y papur a ddarparwyd gan y Gwasanaeth Ymchwil.

## 11 Gwaith diweddar y Sefydliad Llywodraeth ar weithio rhynglywodraethol

Nododd y Pwyllgor y papur a ddarparwyd gan y Gwasanaeth Ymchwil.

## 12 Bil Awtistiaeth (Cymru) - Sesiwn dystiolaeth 1

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Paul Davies AC, yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil.

## 13 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y mater a ganlyn:

Derbyniwyd y cynnig.

## 14 Trafod y Dystiolaeth: Bil Awtistiaeth (Cymru)

Trafododd yr Aelodau y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 15 Protocol Drafft gyda Llywodraeth Cymru - Craffu ar Reoliadau a wneir o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

Trafododd y Pwyllgor yr protocol drafft a chytunodd arno.